





CYNGOR SIR Y FFLINT

Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17



Cynnwys

01	Cyflwyniad	03
02	Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	04
03	Sut Mae Pobl yn Ffurio'n Gwasanaethau?	05
04	Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn	07
	a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles y mae pobl yn dymuno'u cyflawni	
	b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl	
	c) Cymryd camau i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed	
	d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas	
	e) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel	
	f) Gweithio gydag a chefnogi pobl i gyflawni lles economaidd mwy, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion	
05	Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn	24
	a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol	
	b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol	
	c) Ein Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd	
06	Troi at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol	33

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'n hunanarfarniad blynyddol o'n taith wella. Os ydych chi'n cael gwasanaeth oddi wrthym, rhowch wybod a ydych chi o'r farn fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad teg o'ch profiadau dros y 12 mis diwethaf. Croesawn unrhyw sylwadau allai fod gennych, mae eich safbwyntiau'n bwysig i ni ac yn hanfodol er mwyn i ni barhau i wella gwasanaethau i fodloni'ch canlyniadau. Gallwch ysgrifennu ataf neu anfon e-bost ataf fel a ganlyn:

Neil Ayling – Prif Swyddog,
Y Gwasanaethau Cymdeithasol, Llawr Laf, Cam 1,
Neuadd y Sir, YR WYDDGRUG
Sir y Fflint CH7 6NN
E-bost: neil.j.ayling@flintshire.gov.uk

Os ydych chi'n darllen hwn ar-lein, ceir dolenni cyswllt yn rhan olaf yr adroddiad os hoffech ddarllen mwy am unrhyw un o'r gwasanaethau, mentrau neu ddogfennaeth allweddol. Ar gyfer y geiriau sydd wedi'u tanlinellu, mae rhestr eirfa wedi'i chysylltu â'r ddogfen hon a allai helpu esbonio geiriau a themau anghyfarwydd.

Adran 1: Cyflwyniad

Dyma'n Hadroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol cyntaf sydd wedi'i baratoi dan ofynion newydd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a **Deddf Rheoliadau ac Arolygiadau (Cymru) 2015** sy'n deddfu mai ein gofyniad statudol yw llunio adroddiad blynyddol ar weithrediadau'n gwasanaethau cymdeithasol.

Pwrpas Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw gosod ein taith at welliant wrth ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n hyrwyddo'u lles a'u cefnogaeth er mwyn iddynt gyflawni eu canlyniadau personol; mae'n gyfle i ni arfarnu'n perfformiad yn flynyddol yn erbyn ein blaenoriaethau gwella. Fe sylwch fod fformat yr Adroddiad Blynyddol newydd wedi newid eleni, mae bellach yn unioni'n agosach â'r **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** a fydd yn ein helpu ni i ddangos ein perfformiad wrth fodloni canlyniadau lles pobl yn Sir y Fflint. Fe welwch fod ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 bellach yn eistedd o dan un o'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol (SAG) a bydd canlyniadau lles personol pawb yn ymwneud ag un o'r rhain, dyma nhw:

SAG 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni

SAG 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

SAG 3: Cymryd camau i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

SAG 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

SAG 5: Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach yn ddiogel

SAG 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni lles economaidd mwy, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Dyluniwyd yr adroddiad hwn er mwyn cynnig i ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion sy'n defnyddio'n gwasanaethau, teuluoedd, Cynghorwyr, y cyhoedd, ein partneriaid, ein rheoleiddiwr a Llywodraeth Cymru, olwg i'n taith wella a sut rydym yn ffurfio'n gwasanaethau gyda'n gilydd i fodloni canlyniadau lles pobl sy'n byw yn Sir y Fflint. Ymgysylltw'n â'n rhanddeiliaid ar ddatblygu gwasanaethau a gosod ein blaenoriaethau gwella, y byddwn yn tynnu sylw atynt ar hyd yr adroddiad hwn.

Adran 2: Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Dyma'n chweched adroddiad blynyddol a'r cyntaf ar fformat newydd a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru fel ffordd newydd o adrodd. Fel yr ydwi wedi'i wneud yn y blynyddoedd blaenorol, rydw i wedi croesawu'r cyfle hwn i fyfyrir ar waith caled a chyflawniadau'r staff sy'n gweithio gyda phartneriaid wrth gefnogi oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr yn Sir y Fflint.

Ni fu erioed amser pan fu materion a phwysau gofal cymdeithasol mor uchel eu proffil ag y maen nhw ar hyn o bryd. Bob dydd, ceir adroddiadau yn y cyfryngau yn ymwneud â phrinderau mewn gofal cymdeithasol oedolion ar draws y DU. Yn Sir y Fflint, rydym wedi gwneud cydweithio llwyddiannus gyda darparwyr y sector gofal yn wir flaenoriaeth a byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu yn y flwyddyn sydd i ddod i ymateb i'r pwysau o ran recriwtio a chynaliadwyedd eu busnesau.

Un o'r datblygiadau cyffrous eleni fu'r peilot i ddatblygu Hwb Help Cynnar mewn gwasanaethau plant, sef prosiect partneriaeth sy'n cynnwys gwasanaethau addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector i ddarparu'r drws blaen mwyaf effeithiol sy'n cynnig cymorth a mynediad i gefnogaeth rheng flaen arbenigol. Bydd hyn yn datblygu ymhellach ein gwasanaethau plant, gan

adeiladu ar ail-saernio gwasanaethau'n effeithiol sydd bellach wedi'u hymgorffori'n llawn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae uwch gydweithwyr corfforaethol yn Sir y Fflint ac uwch wleidyddion wedi cydweithio yn fwy nag erioed o'r blaen i ymateb i rai o'r heriau o ran gwasanaeth ac adnoddau mewn gwasanaethau cymdeithasol. Rydw i eisoes wedi crybwyll rhai o'r pwysau gofal cymdeithasol oedolion ond rydym hefyd wedi gweld codiadau sylweddol yn y galw am wasanaethau plant y mae angen i ni ymateb iddynt. Mae'r rhain yn heriau rydym yn llwyddo i fynd i'r afael â nhw trwy bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau eraill, lefelau adnoddau priodol ac arfer gorau wrth ymateb i wasanaethau.

Hoffwn ddiolch i'r holl unigolion sydd wedi'n galluogi ni i rannu eu straeon ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y straeon hyn yn llawer gwell wrth ddod â'r gwahaniaeth y mae ein holl waith caled yn ei wneud i fywydau a lles pobl yn fyw.

Ar ran ein Haelod Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, hoffai'r Cynghorydd Christine Jones a minnau ddiolch i'n holl staff am eu hymdrechion wrth gefnogi pobl ddi-amddiffyn yn Sir y Fflint eleni ac wrth gwrs, mae gennym gynlluniau clir i symud ymlaen welliannau gwasanaeth pellach yn y flwyddyn i ddod.



Neil Ayling
Chief Officer
Social Services



**Cynghorydd
Christine Jones**
Aelod Cabinet
dros y
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Adran 3: Sut Mae Pobl yn Ffurio'n Gwasanaethau?

Ar ôl pasio **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, dechreuodd Gyngor Sir y Fflint ar nifer o fentrau newid i ymgorffori ymhellach fodelau **cyd-gynhyrchu** i ddatblygu gwasanaethau a **chomisiynu** mentrau. Rydym wedi dechrau adolygu arfer cyfredol a rhoi newidiadau ar waith a fydd yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda phobl ac yn meithrin perthnasoedd cilyddol i gydweithio ar ddatblygu gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

Rydym wedi cydlynu dau gynllun er 2014 sy'n anelu at ddefnyddio model cyd-gynhyrchu yn ein prosesau comisiynu. Dechreusom ein peilot cychwynnol mewn Gwasanaethau Anabledd, mae hwn yn agos at gael ei gwblhau ac wedi ein galluogi ni i ddal cyfoeth o ddata a dysgu, sydd yn ei dro yn ein galluogi ni i feithrin model comisiynu drafft sy'n amlinellu proses gyd-gynhyrchu. Mae'r model drafft hwn bellach yn llywio'n hail beilot mewn Gwasanaethau Gyrfaedd y rhagwelwn y bydd yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2018. Wrth gwblhau'n hail beilot, bydd gennym fodel cyd-gynhyrchu clir wrth gomisiynu yn Sir y Fflint a byddwn yn ymgorffori hyn fel rhan o'n harfer gweithio.

Yn 2016, bu Sir y Fflint yn rhan o gyfres o weithgareddau a fydd yn llywio datblygiad gwasanaethau'n weithgar. Mae Sir y Fflint wedi cefnogi

datblygiad yr **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth** rhanbarthol; fel rhan o'r broses hon, rydym wedi cael adborth 133 o sefydliadau, wedi cwblhau sesiynau ymgysylltu â staff gyda 90 aelod o staff, wedi ymgynghori â thimau iechyd meddwl, timau cefnogi tai a gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau trwy Double Click a Growing Places, ymgysylltom â'n Panel Dinasyddion Anabledd, Grŵp Plant Dan Ofal a Grŵp Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ogystal ag adolygu 23 o ddogfennau ymgynghori i gefnogi'n hymchwil. Bydd y gwaith hwn yn darparu sail dystiolaeth a all ddynodi rhai o anghenion gofal a chymorth allweddol pobl yn Sir y Fflint ac ar draws Gogledd Cymru, a fydd yn darparu ffynhonnell wybodaeth werthfawr ac yn ein galluogi i lywio trefniadau partneriaeth i'r dyfodol, strategaethau comisiynu a datblygu gwasanaethau yn 2017/18.



Mewn meysydd gwasanaeth eraill, mae Sir y Fflint wedi datblygu cyfres o fentrau cydgyhyrchiol, sy'n **canolbwyntio ar yr unigolyn** a fydd yn llywio sut caiff gwasanaethau eu ffurfio a'u datblygu i'r dyfodol. Er enghraifft, yn 2015-16, cyflwynom Hyfforddiant 'Asesiadau yr Hyn sy'n Bwysig' a 'Canolbwyntio ar Ganlyniadau' yn y Gwasanaethau Oedolion. Yn 2016, dechreusom ar ein menter 'Cynnydd ar gyfer Darparwyr' ac eleni, rydym yn cyflwyno dull '**Yr Hyn sy'n Bwysig**' i Wasanaethau



Section 3: Sut Mae Pobl yn Ffurio'n Gwasanaethau?

Plant. Ar ddiwedd 2016, dechreuodd gwaith i ddatblygu Strategaeth Cyfranogiad Gwasanaethau Plant sy'n cael ei chyd-gynhyrchu gyda'r Grŵp Cyfranogiad a'r Fforwm Gwasanaethau Plant. Mae'r holl fentrau hyn yn annog ac yn cefnogi sgysiau mwy ystyrlon rhwng staff sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol a'r bobl, y teuluoedd a'r gofalwyr sy'n derbyn iechyd a gofal cymdeithasol. O recordio'r sgysiau hyn, bydd modd defnyddio yn y dyfodol yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym i ddylanwadu ar strategaethau datblygu gwasanaethau.

Rydym wedi cyflwyno dull newydd gydag un o'n darparwyr cartrefi gofal o'r enw 'Cydweithio ar gyfer Newid' er mwyn defnyddio llais ansoddol y bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal er mwyn llywio comisiynu strategol. Cynhaliwyd digwyddiad 'Cydweithio ar gyfer Newid' yng nghartref preswyl Llys Gwenffrwd yn 2016. Defnyddiodd y broses ymgysylltu'r data craidd a gasglwyd o adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y cartref er mwyn penderfynu ar yr hyn sy'n gweithio i'r bobl hyn sy'n byw yno, beth nad yw'n gweithio cystal a beth allai fod angen ei newid yn y dyfodol. Ein cynllun yw cyflwyno'r dull hwn i'n holl gartrefi gofal yn y flwyddyn sydd i ddod.

Credwn fod darganfod yr hyn sydd fwyaf pwysig i bobl yn rhan allweddol ddatblygu gwasanaethau o safon a bob blwyddyn, gwahoddwn adborth gan y bobl rydym yn ymwneud â nhw, gan ddefnyddio'r wybodaeth a dderbyniwn i wneud gwelliannau i'r gwasanaethau a gyflwynwn. Eleni, ymatebom ni i'r cais gan Lywodraeth Cymru i gasglu data cenedlaethol am les y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Gwnaethom anfon 1,442 holiadur allan i sampl o oedolion, plant, teuluoedd a gofalwyr ac rydym yn dechrau dadansoddi'r canlyniadau a dyma flas o rywfaint o'r adborth a gawsom:

Dyma beth ddywedodd oedolion wrthym am eu gofal:

✓ Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda...

Adroddodd 96% o bobl eu bod yn hapus neu'n hapus weithiau gyda'r gofal a'r gefnogaeth a dderbyniant

Teimlai 96% o oedolion eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch, a'u bod nhw'n cymryd rhan yn penderfyniadau a wnaed am eu gofal

Teimlai 98% o oedolion eu bod wedi cael y wybodaeth a'r cyngor iawn, a theimlai 95% eu bod yn gwybod gyda phwy i gysylltu pan oedd arnynt angen gwneud

✗ Yr hyn y gallem ei wneud yn well... (rhai enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd pobl)

Lleihau'r amserau aros i roi gwasanaethau cymhleth ar waith

Dynodi rhagor o weithgareddau i bobl unig mewn ardaloedd gwledig

Dyma beth ddywedodd pobl ifanc a rhieni wrthym am eu gofal:

✓ Yr hyn rydym yn ei wneud yn dda...

"Rydych chi ar gael am gyngor pan fo angen"

"Mae'r cyswllt gyda'n Gweithiwr Cymdeithasol yn dda; rydym yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob amser"

"Mae gennym Weithiwr Cymdeithasol gwych"

"Cymorth gyda'r bagiau bwyd o'r banc bwyd" (rhiant)

"Mae ein gweithiwr cymdeithasol ar gael bob amser at ddibenion cefnogaeth" (rhiant)

"Cyfathrebu da, staff llawn cymorth" (rhiant)

✗ Yr hyn y gallem ei wneud yn well...

"Nid yw hyfforddiant ar y rhyngryd yn wych" (rhiant)

"Nid ydym yn cael rhybudd o adolygiadau bob tro" (rhiant)

"Pan fydd gofalwyr mewn argyfwng neu ar fin bod mewn argyfwng, weithiau nid yw'r rheolwyr yn cydnabod hyn. Mae rhai'n cael mwy o gefnogaeth/seibiant na phobl eraill." (rhiant)

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ddod i rym ar 6 Ebrill 2016, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ymgorffori'r dull newydd wrth hyrwyddo **lles** pobl trwy ofyn “beth sy'n bwysig” iddynt. Mae a wnelo hyn â rhoi llais, cyfle a hawl i bawb, boed yn oedolion neu'n blant, i gael eu clywed fel unigolyn er mwyn ffurfio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i gael rheolaeth ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Rydym am rymuso pobl i gyflawni eu **canlyniadau** lles a'n rôl ni yw cefnogi pobl a chydgyhyrchu atebion.

Mae crynodeb isod o'n perfformiad wrth hyrwyddo a gwella lles y sawl a helpwn; rydym wedi trefnu'n gweithgareddau a blaenoriaethau gwasanaethau cymdeithasol i un o'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol fel a ganlyn:

(a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgyhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni

Gwyddwn fod pobl yn y lle gorau i benderfynu ar y canlyniadau personol y dymunant eu cyflawni ar sail eu gwerthoedd eu hunain a'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Felly, rydym yn grymuso pobl i gael mwy o lais a mwy o reolaeth ar y gofal a'r gefnogaeth a gânt trwy gynnwys unigolion yn weithgar wrth wneud penderfyniadau ar eu bywydau. Bydd y dull hwn nid yn unig yn cymhell canlyniadau lles wedi'u cydgyhyrchu, atebion personol ond gwasanaethau o amgylch yr unigolyn hefyd.

Bod y gorau am ddarganfod beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl trwy ganlyniadau personol

Rydym wedi parhau i gyflawni canlyniadau personol y bobl a gefnogwn trwy gyflawniad ein **Tîm Ail-alluogi**. Mae ein dull yn llwyddiannus oherwydd mae'n grymuso'r unigolyn i sefydlu ei ganlyniadau ei hun a gweithiwn ochr yn ochr â nhw i'w cefnogi i gyflawni'r canlyniadau hynny; a chaiff canlyniadau personol naturiol eu diwygio fel y bo'n briodol i adlewyrchu galluedd newidiol unigolyn. Rydym wedi cefnogi llawer o bobl i gyflawni canlyniadau fel adennill annibyniaeth wrth fyw pob dydd, dychwelyd i grwpiau cymdeithasol ac ailsefydlu gweithgareddau gwaith; mae stori **Mrs A** yn enghraifft nodweddiadol o'r gwaith newid bywyd y mae'r tîm ail-alluogi'n ei gyflawni. Mae 69% o unigolion yn gadael y gwasanaeth ar ôl cyflawni eu canlyniadau personol ac yn gofyn am ddim cymorth gwasanaethau cymdeithasol parhaus. Mae 14% pellach yn cwblhau cyfnod ail-alluogi gyda phechyn

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn



cymorth a gynhelir neu wedi'i leihau.

Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i ddarganfod beth sy'n wirioneddol bwysig i bobl a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r dull llwyddiannus hwn a esboniwyd yn Ail-llalluogi hefyd yn cael ei ymgorffori ar draws portffolio ehangach y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys lechyd Meddwl, Gwasanaethau Anabledd a'r Gwasanaethau Plant.

Er mwyn i bobl benderfynu ar y canlyniadau y dymunant eu cyflawni a gwneud penderfyniadau deallus ar sut orau i reoli eu lles, mae angen sicrhau bod gwasanaethau lles, gwybodaeth a chynghor mewn perthynas â gwasanaethau lles a chymorth ar gael ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn. O ganlyniad, rydym wedi datblygu gwasanaethau **Gwybodaeth, Cynghor a Chymorth** o fewn Oedolion, ein Pwynt Mynediad Sengl, ac o fewn Plant, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o

Amgylch y Teulu; mae'r gwasanaethau hyn yn targedu Gwybodaeth, Cynghor a Chymorth gyda'r nod o atal ac ymyrryd yn gynnar. Dyma giplun o'r perfformiad a'r gwahaniaeth y mae ein gwasanaethau Gwybodaeth, Cynghor a Chymorth yn eu gwneud wrth gefnogi pobl i ddiffinio a chyflawni eu canlyniadau lles:

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:

- Cafwyd cyfanswm o 17,684 o ymholiadau gwybodaeth, cynghor a chymorth rhwng Ebrill a Medi 2016
- dywedodd 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth (30 o ymatebwyr) fod y cynghor a'r cymorth wedi'u galluogi i wneud penderfyniad deallus ar ofal plant a chymorth i deuluoedd
- roedd 100% yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant
- dewisodd 75% i droi at ofal plant addas ar ôl troi at y gwasanaeth

Tîm o Amgylch y Teulu:

- cafwyd cyfanswm o 111 o atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf
- cefnogwyd 89 teulu i ddiffinio a datblygu eu Cynllun Gweithredu 'Tîm o Amgylch y Teulu'
- caewyd 65% o'r Cynlluniau Gweithredu hyn gyda chanlyniad llwyddiannus

Un Pwynt Mynediad (UPM) – Cydlynedd 3ydd Sector:

- cafwyd cyfanswm o 171 o ymholiadau gwybodaeth, cynghor a chymorth rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2016
- caewyd 88% o'r ymholiadau gwybodaeth, cynghor a chymorth hyn gyda chanlyniad llwyddiannus
- cafodd 133 o ymholiadau ymateb o fewn y targed o 1 wythnos, cafodd 79 ymateb ar yr un diwrnod

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Parhau i weithio gyda'n holl bartneriaid er mwyn atal derbyniadau ysbyty diangen a dychwelyd unigolion i'w cartrefi cyn gynted â phosibl

Llynedd, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymroi i hyrwyddo a sicrhau 'gwelyau camu i fyny camu i lawr' digonol yn y gymuned a ariennir trwy'r **Gronfa Gofal Canolradd**. Ar draws ein cartrefi gofal preswyl mewnol a'r sector annibynnol, rydym wedi diogelu 12 'gwely camu i fyny camu i lawr' ar gyfartaledd a ddefnyddiwyd fel rhan o'n proses **rhyddhau i asesu** ac aeth 153 o unigolion at y gwelyau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n galluogodd i **atal** derbyniad ysbyty ac/neu gadw pobl mor agos at adref a'u teulu â phosibl. Caiff yr unigolion sy'n defnyddio'r gwelyau 'camu i fyny camu i lawr' hyn eu gofalu amdanynt gan dimau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, gan gynnwys eu meddyg teulu, Nyrsys Ardal, Therapyddion Cymunedol ac Ail-alluogi fel y bo angen, sy'n cefnogi cartref gwella cyflym neu i leoliad tymor hwy o'u dewis. O'r 153 o unigolion sydd wedi'u cefnogi mewn 'gwely camu i fyny camu i lawr' eleni, dyma grynodedb o'r canlyniadau:

- 75 dychwelasant adref neu aethant i fyw gyda pherthynas
- 7 rhyddhawyd am asesiad pellach
- 24 symudwyd i ofal tymor hir
- 10 wedi marw
- 4 wedi'u derbyn i'r ysbyty
- 33 arhoson nhw yn y gwely 'camu i fyny camu i lawr' adeg adrodd

Mae'n bleser gennym adrodd fod Sir y Fflint wedi parhau i weithio'n dda gyda'n cydweithwyr iechyd a'n darparwyr annibynnol i sicrhau bod unigolion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty cyn gynted ag y maen nhw'n feddygol iach gan arwain at gyfradd isel o ran **oedi wrth drosglwyddo gofal** o'r ysbyty; am naw mis cyntaf y flwyddyn cafwyd 17 achos o oedi am resymau gofal cymdeithasol i oedolion 75 oed neu'n hŷn, gan roi i ni gyfradd o 1.3 fesul 1,000 yn y boblogaeth ar gyfer trosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio. Er gwaetha'r ffaith fod hon yn her sydd wedi cael cyhoedduswydd da, mae nifer gyfartalog y rhyddhau wedi'i oedi o'r ysbyty'n parhau'n isel sy'n dangos arwyddion clir o'r gwaith cadarnhaol sy'n digwydd yn Sir y Fflint i atal derbyniadau ysbyty a chefnogi rhyddhau cynnar.



At hynny, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'i bartneriaid wedi sicrhau bod arian ar gael gan y Gronfa Gofal Canolradd i ddarparu uchafswm o £2,000 i gartrefi gofal Sir y Fflint tuag at brynu offer, megis **teclynnau codi**, gwelyau, matresi ac **elks** i gyflymu'r broses o ryddhau o'r ysbyty neu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty i Bobl Hŷn.

Bod yn rhiant corfforaethol cryf ac effeithiol

Mae Strategaeth **Rhianta Corfforaethol** yn cael ei datblygu yn Sir y Fflint, sy'n gyfochrog â'r Strategaeth Cyfranogiad. Bydd y Strategaeth

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Rhianta Corfforaethol yn gosod gweledigaeth ac ymrwymiad i Gyngor Sir y Fflint ac yn rhoi eglurder ar sut byddwn ni, fel y Cyngor, yn rhiant corfforaethol effeithiol a dibynadwy i unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc yn ein gofal ni waeth beth yw ei oedran, rhyw, rhywioldeb, ethnigrwydd, ffydd neu anabledd. Bydd ein gwaith yn dechrau i ddatod Adduned Rhianta Corfforaethol cyfredol Sir y Fflint ochr yn ochr â phobl ifanc ac Aelodau Etholedig er mwyn tynnu llifoedd gwaith blaenoriaeth allan. Bydd dysgu ychwanegol yn cael ei gymryd o'r digwyddiad Rhianta Corfforaethol Cenedlaethol sy'n digwydd ym mis Mawrth 2017 a fydd yn adrodd nôl o ddigwyddiadau rhanbarthol ac yn arddangos arfer gorau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd ein Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi yn 2017/18 ac yn gwmni iddi fydd cynllun gweithredu y byddwn yn ei symud ymlaen trwy gydweithredu â'n partneriaid.

Mae gennym 220 o **blant dan ofal**, sy'n parhau'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Ein bwriad yw ymateb i'r agenda genedlaethol trwy leihau nifer y plant sydd dan ofal a darparu cynllunio sefydlogrwydd amserol i'r plant hynny sy'n destun llety gwirfoddol. Cynrychiolir plant dan ofal ar y Fforwm Plant ac mae eu llais ar y cyd yn helpu ffurfio gwasanaethau blaenoriaeth a amlygir yn ein Cynllun Gwella'r Cyngor, fel gwella mynediad i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwella canlyniadau i blant dan ofal.

- mae 94% o'r plant dan ofal ac 84% o'r plant sydd angen gofal a chefnogaeth wedi cael eu cynlluniau gofal wedi'u hadolygu o fewn y graddfeydd amser
- mae 85% o ymweliadau i blant dan ofal yn cael eu darparu o fewn y graddfeydd amser

Wrth symud ymlaen, dyma ein blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant trwy'n polisïau, gweithdrefnau, ymarfer a thrwy ddatblygu ein dull o gydgyhyrchu wrth gryfhau gallu'r gymuned.
- Cynllunio ar gyfer ac ymgorffori'r gofynion newydd dan y Ddeddf Cofrestru ac Arolygu.

(b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles pobl yn llwyddiannus, mae angen i ni gydweithio. Mae angen i ni gymryd mwy o gyfrifoldeb gyda'n gilydd am annog a grymuso pobl i gymryd yr awenau yn eu bywydau eu hunain a rheoli eu hiechyd a'u lles. Mae angen i ni yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'n partneriaid ddatblygu'r modd cywir o gefnogi pobl i droi at y gwasanaethau sy'n eu galluogi i gynnal lefel o les corfforol, meddyliol ac emosiynol da. Mae hyn hefyd yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n canolbwyntio ar Les cenedlaethau'r dyfodol mewn cyd-destun ehangach.

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn



Datblygu partneriaethau strategol allweddol gyda darparwyr arbenigol, er enghraifft Action for Children, i gryfhau'n gwasanaethau ataliol

Rydym wedi bod yn cryfhau ein **partneriaeth strategol** gydag Action for Children yn ystod y sawl mis diwethaf. Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliom Fore Datblygu gyda'r holl randdeiliaid i edrych ar sut dylai'n partneriaeth strategol edrych yn y dyfodol, beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw a sut i wneud y mwyaf o'r meysydd gwasanaeth sy'n syrthio o dan y bartneriaeth.

Bydd ein partneriaeth yn cynnwys cyflwyno prosiect Gofal Cofleidiol newydd gydag Action for Children, sydd yn ei ddyddiau cynnar. Gweithia'r prosiect ar ddwy lefel; cynigia'r gwasanaeth wasanaeth cofleidiol dwys i bobl ifanc a'u gofalgwyr, sydd mewn lleoliadau gofal y



tu allan i'r sir, neu sydd mewn perygl sylweddol o gael eu gosod mewn lleoliad gofal y tu allan i'r sir. Nod y gwasanaeth yw cefnogi'r unigolyn ifanc i bwynt lle gellir ei gefnogi'n llwyddiannus mewn lleoliad maethu lleol. Byddwn yn buddsoddi yn ein gwasanaeth Maethu yn 2017 er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn. Bydd ail elfen y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth therapi ymyriad ac ataliol cynnar i leihau'r risg o deulu neu leoliad yn chwalu. Gydag amser, bydd y gwasanaeth cofleidiol yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi mwy o bobl ifanc i fyw yn lleol, wrth leihau'n sylweddol cost gofal preswyl sy'n dod i gyfartaledd o £3500 yr wythnos fesul plentyn.

Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r bartneriaeth hon a chryfhau'n gwasanaethau ataliol gydag Action for Children yn ystod 2017/18 ac yn y blynyddoedd i ddilyn.

Cafodd ein rhaglen Dechrau'n Deg adborth 7 mam a gwblhaodd pecyn cymorth targedig gyda'r fydwaig Dechrau'n Deg. Dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi dysgu mwy a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus i ofalu am eu babi. Roedd pob un ohonynt yn teimlo'n fwy deallus am bwysigrwydd bwydo ar y fron a chael perthynas gynnes ac agos gariadus gyda'u babi.

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Darparodd 3 theulu adborth o'u profiadau o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg; teimlai pob un ohonynt eu bod yn cael eu cefnogi o ran cael eu plentyn i ymgartrefu mewn gofal plant, ac adroddon nhw welliannau mewn siarad, gwrando a rhannu'r plant. Cwblhaodd 73 rhiant gwrs rhianta a chofnododd 96% eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn o ran y ffordd y cawsant eu trin ar y cwrs; rydym yn gweithio ar fesur o ran y gwahaniaeth y mae hyn wedi'i wneud.

Ymgorffori ymarfer o amgylch yr unigolyn mewn cartrefi gofal ar draws Sir y Fflint a chyflwyno rhaglen debyg gyda darparwyr gofal yn y cartref

Mae'r Tîm Monitro Contractau wedi bod yn ymgymryd â gwaith arloesol ar y cyd â'n darparwyr gofal preswyl a Helen Sanderson Associates trwy ddechrau ar raglen newid o'r enw **“Creating a Place Called Home, Delivering What Matters”** sy'n ceisio gwella bywydau o ddydd i ddydd unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl trwy ymgorffori arferion o amgylch yr unigolyn a chyflwyno'r hyn sy'n bwysig i bobl.

Fel ffordd o gydnabod y gwaith da a'r cynnydd y mae cartrefi gofal yn eu gwneud ar y daith hon, rydym wedi cyflwyno **'Progress for Providers'** sy'n cynnwys tair lefel achredu, sef Efydd, Arian ac Aur. Bydd hyn yn helpu ein cartrefi gofal i ddangos yn gyhoeddus eu bod yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni gofal o amgylch yr unigolyn.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Tîm wedi bod yn brysur yn cefnogi'n

cartrefi gofal wrth weithio tuag at yr achrediad efydd; er mwyn bod yn efydd, mae angen i bawb yn y cartref gofal (gan gynnwys yr holl staff) gael proffil un tudalen diweddar sy'n cael ei ddefnyddio ac, yn bwysicach na hynny, sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau'r unigolion a'r staff yn y cartref gofal. Rydym wedi cael rhai straeon gwyh o ran sut mae'r **proffiliau un tudalen** yn gwella ansawdd bywyd i bobl, er enghraifft mae un gŵr bellach yn mynd i bysgota gyda pherthynas aelod o staff o ganlyniad i'r proffil un tudalen ac mae gŵr arall yn gallu gwneud yr hyn mae'n ei fwynhau eto, sef mynd i roi bet fach mewn ras geffylau. Rydym wedi sylweddoli mai'r pethau bach sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf; ewch ati i ddarllen stori **Mair**.

Rydym yn nyddiau cynnar y daith gyffrous hon ond fel y gallwch weld, mae'r arferion o amgylch yr unigolyn a chyflawni'r hyn sy'n bwysig wir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a lles ein trigolion; ac yn dilyn y llwyddiant hwn, rydym bellach yn edrych i gyflwyno rhaglen debyg gyda'n darparwyr **gofal cartref** ac i'r bobl sy'n cael gofal a chefnogaeth yn eu cartref eu hunain.

Parhau i ddatblygu timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol a **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** wrthi'n gweithio ar y cyd i ddatblygu **Tîm Adnoddau Cymunedol**. Pwrpas y tîm hwn yw ymateb yn gyflym i anghenion

Progress for Providers

Checking your progress in delivering personalised support for older people and people living with dementia in Care Homes in Flintshire



Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

iechyd a lles unigolyn sy'n gwaethygu, gan ddarparu cefnogaeth yng nghartref yr unigolyn, er mwyn atal yr angen i'w dderbyn i'r ysbyty. Bydd y tîm yn darparu gofal tymor byr am gyfnod asesu cychwynnol o bythefnos. Bydd y tîm hwn yn cefnogi'r gwaith o **atal** derbyniad i'r ysbyty, sy'n flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd Iechyd, ac fe fydd yn galluogi pobl i aros adref a chael eu cefnogi gan dîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Bydd gwaith y **Pwynt Mynediad Sengl** yn Sir y Fflint yn ganolog i gydlynu iechyd cymunedol, gofal cymdeithasol a phartneriaid 3ydd sector, defnyddio adnoddau priodol ac mae'n gallu cynnig dewisiadau go iawn i ofal statudol a llym; ac eleni rydym wedi gweld rôl Cydlynedd **3ydd Sector ymroddedig** yn cael ei gyflwyno, a ariennir trwy'r ICF i fodloni anghenion holistaidd y bobl sydd mewn cysylltiad â'r Pwynt Mynediad Sengl. the SPoA.

Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 wrth symud ymlaen:

- Rhoi'r Tîm Adnoddau Cymunedol, wedi'i integreiddio gyda'r Pwynt Mynediad Sengl, ar waith
- Gwaith gyda gofalwyr i'n helpu i gysylltu canlyniadau i ddatblygu arfer

(c) Cymryd camau i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Ein dyletswydd ni yw diogelu oedolion a phlant fel y diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Er mwyn gwneud hyn, gweithiwn gydag asiantaethau partner allweddol, fel yr Heddlu, Iechyd, Eiriolaeth, Cymorth i Ferched, er mwyn sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth iawn yn cael ei threfnu i bobl sy'n destun ac sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u **hesgeuluso** er mwyn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau lles personol. Mae'n bleser gennym rannu'n cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf...

- Cynhaliwyd 81% o Gynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol o fewn y graddfeydd amser
- Cynhaliwyd 98% o Adolygiadau Amddiffyn Plant o fewn y graddfeydd amser
- Roedd 4% o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ddatgofrestriadau
- Hyd cyfartalog yr amser ar y gofrestr oedd 217 o ddyddiau
- Roedd 134 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 31 Rhagfyr 2016

Teimlwyd gofynion diogelu newydd ac ychwanegol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) fwyaf mewn Diogelu Oedolion, yn dilyn newid y diffiniad 'Oedolyn mewn Perygl'. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i lunio'r Rheoliadau a'r Codau Ymarfer i gefnogi'r ddeddfwriaeth newydd ond mae llawer o'r egwyddorion bellach yn cael eu hymgorffori i ymarfer yn Sir y Fflint gan gynnwys sefydlu Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Bwrdd Diogelu Annibynnol

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn



Cenedlaethol a Grŵp Cyflwyno Diogelu isranbarthol sy'n lledu gwaith y byrddau rhanbarthol i wasanaethau gweithredol.

Mae Panel Diogelu Corfforaethol Sir y Fflint a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2015 yn prysur adeiladu yn sgil creu'r Polisi Diogelu Corfforaethol, Cynllun Cyfathrebu clir a sefydlu rhaglen hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sylfaen i holl weithwyr yr awdurdodau lleol.

Rheoli'r risgiau a ddynodwyd trwy atgyfeiriadau diogelu oedolion gan gynnwys rheoli honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol

Hyd yma, mae'r Tîm Diogelu Oedolion wedi cael 347 atgyfeiriad amddiffyn oedolion, hyd at 30 Ionawr 2017, amcangyfrifwn fod hyn oddeutu 400 atgyfeiriad erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Adroddwyd ar ganran uchaf yr atgyfeiriadau hyn gan asiantaethau sector Annibynnol, a ddilynwyd gan gydweithwyr ieched/ysbyty. Symudodd dros 50% o atgyfeiriadau at drafodaethau strategaeth, lle rhoddwyd dulliau diogelu uniongyrchol ar waith i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl a chynhaliwyd ymchwiliadau gan yr asiantaeth fwyaf perthnasol mewn perthynas â'r atgyfeiriad.

Cafwyd 4 atgyfeiriad yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol hyd yma a reolwyd yn unol â Pholisi Pryderon Proffesiynol y Bwrdd Diogelu Oedolion. Er bod nifer yr atgyfeiriadau i weld yn isel, rheolir y rhan fwyaf o atgyfeiriadau'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol yn y broses diogelu oedolion.

Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau cyfagos i ddrafftio ffurflen atgyfeirio Pryderon Diogelu Oedolion ddiwygiedig yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac rydym wedi gweithio gyda thimau perfformiad mewnol i ddiweddarau gwybodaeth am gleientiaid i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Rhannwn adborth cadarnhaol a negyddol gyda'r Tîm Monitro Contractau er mwyn iddynt gymryd camau priodol gyda darparwyr. Mae'r wybodaeth hon yn bwydo i'r broses fonitro, a lle bo angen, caiff cynlluniau gweithredu eu rhoi ar waith er mwyn i'r comisiynydd fonitro a sicrhau bod gofal safon uchel yn cael ei gyflwyno i ddinasyddion.

Gweler isod un enghraifft o'n llwyddiant wrth gefnogi unigolion trwy'r broses Diogelu Oedolion a'r ffordd y gwnaethom wrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt ac yn eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol:

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn



Parhau i ddatblygu'r Panel Ecsbloetiaeth Rhywiol Plant amlasiantaeth i fodloni'r galw a'r gofynion am wasanaethau a sefydlu cysylltiadau rhanbarthol

Mae **Panel Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Sir y Fflint** wedi bod yn weithredol ers 14 mis erbyn hyn ac mae'n parhau i esblygu fel model. Mae cylch gwaith y panel wedi ehangu dros y flwyddyn ddiwethaf a chaiff ei gydnabod yn batrwm o arfer da sy'n cael ei ailadrodd ar draws y rhanbarth. Mae'r panel yn cael ei fynychu'n gyson gan nifer o asiantaethau partner gan gynnwys yr Heddlu (tîm Onyx), Addysg, CAMHS, Barnardos, NSPCC, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwerthusiad o'r panel wrthi'n cael ei wneud ar lefel Panel a hefyd yn y Gwasanaethau Plant o ran yr ymateb i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a rheoli achosion gan ddefnyddio **arf SERAF**. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Cyfarfod Ffederasiwn y Penaethiaid a chynhaliwyd sesiwn hyfforddiant peilot gyda grŵp mawr o athrawon yn Sir y Fflint.

Mae Panel Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Sir y Fflint yn trafod achosion risg uchel unigol yn ogystal â dynodi cysylltiadau ar draws y sir a hefyd cysylltiadau rhanbarthol gydag achosion. Mae'r Panel hefyd yn dynodi achosion sy'n cynnwys Plant Dan Ofal i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu monitro a bod plant yn cael eu diogelu.

Gweithio gyda'r gwasanaethau Gwaith Maes Plant i gysylltu'r asesiad sengl arfaethedig i mewn i'r fframwaith Amddiffyn Plant

Mae'r gwaith hwn wedi parhau ar hyd y flwyddyn. Fe'i cytunwyd gan Benaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru y bydd **Asesiad Sengl** Rhanbarthol bellach yn cael ei ddatblygu. Roedd gweithgor yn Sir y Fflint eisoes wedi dechrau ar y darn o waith hwn ar y cyd â chynrychiolydd o'r Uned Ddiogelu. Mae'r gweithgor ar draws y sir bellach wedi datblygu ffurflen i'w hystyried ar raddfa ranbarthol. Mae Sir y Fflint yn adolygu'r ddogfennaeth hon yn unol â phrosesau

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

mewnol. Mae peilot ar waith ar hyn o bryd yn Sir y Fflint ac mae gweithgor mewnol yn asesu sut y gellir defnyddio hyn ar hyd y broses gwaith cymdeithasol, o ymyriad cynnar i amddiffyn plant a'r llys os oes angen. Gobaith y gweithgor yw bod mewn sefyllfa i lansio'r asesiad senl mis erbyn Ebrill 2017.

Bydd gweithdai rhanbarthol yn cychwyn yn fuan gan edrych ar ofal a chynllun cymorth traws sirol sy'n gysylltiedig â'r asesiad. Bydd Sir y Fflint yn sicrhau y bydd hwn yn gweddu i'n harferion gwaith ein hunain yn lleol ar ôl iddo gael ei ddatblygu yn ogystal â chydymffurfio â'r ddeddf.

Gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddod ag arfer diogelu yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru sawl gweithdy ar bob agwedd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a fynychwyd gan fwyafrif yr aelodau staff ar draws y gwasanaethau Oedolion a Phlant; gyda gweithdai'n cael eu cynnal hefyd ar gyfer rheolwyr ar newid trefniadol a pherfformiad. Galwyd sesiynau mewnol i fapio prosesau o fewn y Gwasanaethau Plant i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r Ddeddf i nodi unrhyw fylchau. Ymhlith y llifoedd gwaith a ddatblygwyd mae: gweithio gyda'n system wybodaeth i gleientiaid, sef **PARIS** i sicrhau bod ffurflenni'n cydymffurfio â'r Ddeddf a bod y data sy'n cael ei gasglu'n bodloni gofynion y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a'r setiau data newydd; gwaith gyda thimau gwasanaethau

cymdeithasol penodol sy'n canolbwyntio ar asesu a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; ailddrafftio dogfennaeth Plant Dan Ofal i sicrhau bod llais y plentyn wrth wraidd ein gwaith yn ogystal â pharhau i weithio gyda'r **Cynllun Cyfeillio Cynhadledd** yn yr arena amddiffyn plant. Mae gweithwyr cymdeithasol Plant Dan Ofal a swyddogion Adolygu Annibynnol wrthi'n cefnogi peilot 'cynnig eiriolaeth weithgar' o chwe mis gyda Thros Gynnal Plant/Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru sy'n anelu at gynnig eiriolaeth i bob plentyn newydd ei letya neu'r rhai sy'n symud lleoliad.

Sefydlu blaenoriaethau cytûn ar gyfer gweithredu mewn perthynas â materion Deddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, mewn cartrefi gofal dan fframwaith Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac mewn lleoliadau cymunedol

Rhoddwyd **Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol** ar waith ar 1 Ebrill, 2009. Yn 2014, arweiniodd dyfarniad llys, a adwaenir fel 'Gorllewin Sywdd Gaer' at gynnydd enfawr mewn atgyfeiriadau ar draws Cymru a Lloegr, ac ar hyn o bryd, mae 261 o achosion yn aros i gael eu clustnodi am asesiad Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Sir y Fflint. Er mwyn dangos ein hymroddiad i reoli'r cynnydd hwn mewn galw, rydym wedi penodi gweithwyr cymdeithasol amser llawn i ymgymryd ag **Asesiadau Budd Gorau** a thros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid wedi parhau i weithio i'r blaenoriaethau a gafodd eu hargymell gan Lywodraeth Cymru i asesu pa achosion fydd yn cael eu datblygu, mae eu harweiniad yn gosod tri chategori (coch, melyngoch a gwyrdd) i helpu blaenoriaethu'r dyraniad achosion.

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Mae'r tîm Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn gweithio'n agos gyda chartrefi gofal er mwyn i'r cartrefi roi gwybod i'r tîm os oes unrhyw faterion neu newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau unigolyn a allai arwain at flaenoriaethu cais penodol.

Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 wrth symud ymlaen:

- Perchnogaeth Gorfforaethol gref o'r agenda ddiogelu trwy lefelau dysgu da mewn perthynas â diogelu, Rhianta Corfforaethol effeithiol a dull cydlynol o droi at les.

(d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'n bwysig ein bod ni'n hyrwyddo ac yn cefnogi pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol, boed hynny i ddysgu sgiliau newydd, astudio am gymhwyster, datblygu diddordebau newydd neu ymuno â gweithgaredd cymdeithasol newydd. Anogwn bobl i fod yn aelodau gweithgar o gymdeithas, yn y ffordd maen nhw'n dewis, sy'n lleihau ynysu cymdeithasol ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae gennym rai enghreifftiau gwych o'r ffordd y mae pobl ifanc ac unigolion gydag anabledd yn achub mantais ar gyfleoedd i ddysgu a datblygu:

- Yn Seremoni Wobrwyo flynyddol Balchder Sir y Fflint eleni, lle rhoddir gwobrau am ddinasyddiaeth a helpu pobl eraill, roedd cannoedd o enwebiadau gan ofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon er mwyn dathlu cyflawniadau pobl ifanc. Cafodd un gŵr ifanc oed ysgol gynradd wobwr am geisio helpu pâr a aeth i drafferthion tra'r oeddent ar eu gwyliau. Cafodd dynes ifanc oedd wedi cael anawsterau wrth ryngweithio'n gymdeithasol wobwr am fod yn Gadeirydd Cyngor Ysgol ac am roi o'i hamser i helpu pobl ifanc eraill i gymryd rhan.
- Mae'r Tîm Sefydlogrwydd wedi meithrin cysylltiadau agos gydag ysgolion i sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan a'u bod yn cael eu herio'n briodol. Anogir ymadawyr gofal i gysylltu â gweithgareddau yn y gymuned, fel cael profiad gwaith mewn cartrefi gofal preswyl; mae hyn wedi arwain at nifer o bobl ifanc i ystyried gyrfa yn y sector gofal.

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

- Caiff cyrhaeddiad addysgol plant dan ofal ei fonitro trwy'r Fforwm Plant a hefyd trwy gyfarfodydd Craffu. Yn dilyn pryder mewn perthynas â'r canlyniadau isel ar draws y Cyngor, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i adolygu hyn a nodi camau gweithredu i gefnogi gwelliant. Sefydlwyd grŵp llywio Plant Dan Ofal gweithredol a daeth canlyniadau Plant Dan Ofal yn ffocws i Ymgynghorwyr Her sy'n gweithio ar draws ysgolion Sir y Fflint. Ers hynny, mae'r Grŵp Llywio wedi ehangu i gynnwys ystod ehangach o weithwyr proffesiynol sy'n sicrhau bod dull holistaidd yn cael ei gynnal.
- Yn hanner cyntaf y flwyddyn hon, nodwyd 36 gofalwr ifanc gennym ac fe'u cyfeiriwyd at Barnardos am asesiad. Roedd gan 23 asesiad gofalwr. Bydd y canlyniadau ar gyfer y bobl ifanc hyn yn cael eu hadrodd arnynt ar ddiwedd y flwyddyn hon. Fodd bynnag, roedd rhai o ganlyniadau'r llynedd yn cynnwys:
Adroddodd 76% o blant a phobl ifanc fod Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint wedi helpu lleihau effaith eu rôl ofalgar.
Adroddodd 80% o bobl ifanc fod cefnogaeth gan Ofalwyr Ifanc Sir y Fflint wedi golygu eu bod yn gallu ymdopi â'u rôl ofalgar yn fwy
Adroddodd 81% o bobl ifanc fod cymryd rhan gyda Gofalwyr Ifanc Sir y Fflint wedi codi eu hunanhyder
Roedd 14 o 15 gofalwr ifanc wedi defnyddio'r cerdyn A2A ac wedi



teimlo ei fod yn ddefnyddiol.

*“Roedd yn llawer haws na gorfod esbonio fy mod i'n ofalwr ifanc a pham y mae arnaf angen amser ychwanegol am waith cartref ac ati weithiau”
“Rhoddodd amser i mi leddfu pwysau a straen arholiadau yn ogystal â gwaith ysgol”*

*“Roedd yr athro'n gwybod fy mod i'n ofalwr ifanc ac yn deall fy sefyllfa”
“Mae'n eich helpu i esbonio beth ydych chi heb esbonio – dim ond trwy'r cerdyn”*

Ymgorffori'r Model Dilyniant ar draws pob maes gwasanaeth

Bu'r **Model Dilyniant** yn flaenoriaeth mewn Gwasanaethau Anabledd. Rydym am ailffurfio'r ffordd y darperir cefnogaeth a llety yn Sir y Fflint sy'n canolbwyntio'n fwy ar ail-alluogi er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymunedol; galwn hwn yn fodel dilyniant ac mae'n galluogi unigolion i gael mwy o gyfleoedd, mwy o ddewis a rheolaeth ac annibyniaeth.

Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn fuddsoddiad Cronfa Gofal Canolradd tymor byr i symud y flaenoriaeth hon yn ei blaen ymhellach. Gan ddefnyddio'r cyllid hwn, mae Sir y Fflint wedi sefydlu Tîm Rhanddeiliaid i arwain y gwaith hwn ac ymgorffori'r model ar draws y gwasanaeth, gyda'n ffocws cyntaf ar unigolion mewn **byw gyda chymorth**. Ers cychwyn y Tîm Rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2016, rydym wedi:

- Ymgorffori'r model yn Orchard Way, gweler yr astudiaeth achos isod
- Gwahodd Darparwyr Cymorth y tai gan ddefnyddio'r model dilyniant i ymuno â'n Tîm Rhanddeiliaid
- Cynllunio hyfforddiant i weithwyr cymorth ar y model dilyniant newydd
- Cytuno Strategaeth Cymryd Risg Cadarnhaol

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

- Gosod Technoleg Gynorthwyol i gefnogi'r model a mwy o annibyniaeth i unigolion
- Nodi eiddo byw gyda chymorth pellach y byddwn yn cyflwyno'r model ynddynt

Dyma astudiaeth achos o'r model dilyniant sy'n cael ei ddefnyddio yn **Orchard Way**.

Bydd y model dilyniant yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws pob eiddo byw gyda chymorth; bydd y model hwn yn dod yn ffordd newydd o weithio a gefnogir gan staff a theuluoedd.

Trawsnewid Anableddau Dysgu a gwasanaethau Dydd

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyflwyno **gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith** o safon i dros 150 o oedolion gydag anableddau dysgu. Cynigia'r gwasanaethau hyn ofal seibiant a chefnogaeth, gyda gweithgareddau ystyrion sy'n gwella sgiliau ac yn codi annibyniaeth. Mae tîm y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff i ystyried **modelau cyflwyno amgen** a fydd yn helpu diogelu a moderneiddio'r gwasanaethau hyn i fodloni anghenion y gymuned ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae hwn yn nod heriol, gan fod y Cyngor yn ceisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd ar draws pob gwasanaeth.

Yn ystod 2015-16, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a staff Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Helpodd y digwyddiadau hyn y Cyngor i ddeall beth sydd fwyaf pwysig i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau



hyn. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu ffurfio'r ffordd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol.

Yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb fanwl lle ystyriodd y cyngor nifer o ddewisiadau gan gynnwys dewis menter gymdeithasol, cynhaliwyd proses gaffael ffurfiol i asesu a dewis darparwr allanol dibynadwy a phrofiadol, gyda nodau cymdeithasol, i gyflawni'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â'r Cyngor dan gontract wedi'i gomisiynu. Mae'r broses gaffael hon ar fin cael ei chwblhau ac mae wedi elwa ar gydweithredu agos gyda'r holl randdeiliaid gan gynnwys unigolion a'u teuluoedd, staff ac undebau llafur, Aelodau'r Cyngor ac eiriolwyr gwasanaeth annibynnol. Rhagwelir y bydd argymhelliad i benodi darparwr gwasanaeth partner, neu i barhau i drawsnewid fel gwasanaeth a redir gan y Cyngor, yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor yn y gwanwyn 2017.

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Fel rhan o'i ymrwymiad i gyflwyno cefnogaeth ansawdd da i bobl gydag anableddau, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo prosiect cyllid cyfalaf o £4 miliwn i adeiladu'r ganolfan wasanaeth dydd newydd a fydd yn fodern ac yn addas i'r diben, yn ardal Glannau Dyfrdwy, yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd unigolion a theuluoedd yn rhan o broses ddylunio'r adeilad newydd.

Wrth symud ymlaen, dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Caiff y broses ar gyfer lleoliadau cost uchel eu rheoli'n dda a'u glynu wrthynt
- Treialu'r gofal plant am ddim o 30 awr
- Mae'r model dilyniant yn parhau i gael ei ymgorffori
- Bydd trawsnewidiad y gwasanaethau dydd a'r cyfleoedd gwaith yn parhau

(e) Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal y perthnasoedd sy'n bwysig iddynt, wrth helpu pobl hefyd i gydnabod perthnasoedd anniogel a'u helpu i'w diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Trwy wrando ar safbwyntiau pawb sydd ynghlwm a thargedu ymyriad a chefnogaeth gynnar, credwn y gallwn gefnogi teuluoedd a phlant yn well i gynnal perthnasoedd iach.

Parhau i ddatblygu'n ffyrdd o dargedu ymyriad a chefnogaeth gynnar i Blant, Rhieni a Theuluoedd

Nod y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yw ail-gydbwyso'r ffocws ar ofal a chefnogaeth i atal ac ymyrryd yn gynnar - cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i leihau'r gwaith o ddwysau anghenion i lefel ddifrifol. Yn ystod y flwyddyn, mae asiantaethau partner sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant ac oedolion, ieuenctid ac addysg, tai, plismona ac iechyd wedi dod at ei gilydd i ddechrau gweithio ar gyflwyno'r Hwb Help Cynnar. Y nod yw rhannu gwybodaeth am deuluoedd gydag anghenion mwy cymhleth er mwyn gallu sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth mwy priodol ar gael i'r teuluoedd hynny. Bydd y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth ar gael yn llawer cynt nag y byddai fel arall ac mae'n cael ei gydlynu'n well er mwyn i ddatrys problemau go iawn allu digwydd gyda theuluoedd. Nid yn unig y bydd hyn yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth agosach, yn gwella'n gallu i ddynodi a thargedu mesurau ataliol i deuluoedd diamddiffyn ond bod y

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

canlyniadau lles i'r plentyn a'r teulu'n cael eu gwella trwy eu cefnogi'n gynt yn eu taith.

Gwelodd eleni ffocws ar gasglu deallusrwydd am deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau ar draws y 'sbectrwm angen', o gyffredinol i statudol a fydd yn ein galluogi i ddatblygu gwasanaethau sy'n atal yn hytrach nag ymateb. Er enghraifft, gwyddwn fod rhieni gyda phroblemau iechyd meddwl yn nodwedd gref o achosion lle mae plant wedi'u niweidio'n ddifrifol, hyd yn oed gyda chyflyrau fel iselder sy'n rhwystro gallu rhiant i ymateb i anogaeth emosiynol eu plentyn a gallu cynnig gofal cyson. Newydd ddechrau mae ymchwil i ystyried effeithiau'r cyflyrau iechyd meddwl mwy difrifol ar fagu plant. Y nod tuag at ymyriad ac ataliad cynnar pellach yw deall yr effaith a gwneud rhywbeth yn gynt, lle gallwn ni, trwy wneud y defnydd gorau o Gronni Adnoddau, deallusrwydd a llifo gwaith.

Yn Sir y Fflint, mae gennym rwydwaith presennol helaeth o wasanaethau ymyrraeth gynnar effeithiol, uchel eu parch, cyffredinol a thargedig sy'n cefnogi teuluoedd i gadw'n ddiogel, yn sicr, mewn iechyd ac i fwynhau lles economaidd a chymdeithasol. Bydd yr Hwb Help Cynnar yn gweithio gyda'r gwasanaethau hyn fel rhan o ddull sy'n mynd ymhellach i gefnogi teuluoedd penodol gydag anghenion cymhleth. Y nod yw galluogi'r teuluoedd hyn i adeiladu eu lles a'u gwydnwch eu hunain er mwyn iddynt fod mewn lle da i atal eu problemau rhag dwysau.



Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

Wrth symud ymlaen, dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18:

- Rhoi hwb help cynnar ar waith i blant a theuluoedd

(f) Gweithio gydag a chefnogi pobl i gyflawni mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Fel unigolion, mae ein lles wedi'i wella gan gydadweithiau cymdeithasol ac ymdeimlad o gyfraniad at gymdeithas a byw mewn llety sy'n cefnogi'n hannibyniaeth a'n canlyniadau personol. Mae a wnelo hefyd â hyrwyddo a chryfhau ein gwasanaethau Cymraeg ac at ddibenion dangos ein hymrwymiad, rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb a'r Gymraeg i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg ac ymgorffori fframwaith cyfreithiol Mwy Na Geiriau. Rydym wrthi'n

cefnogi ac yn annog pobl i gyflawni mwy o les cymdeithasol ac economaidd wrth sicrhau hefyd fod llety digonol ac addas ar gael sy'n bodloni anghenion pobl.

Gwella ansawdd bywyd trwy hyrwyddo byw yn annibynnol

Pa ffordd well o ddangos sut rydym yn gwella ansawdd bywyd i bobl trwy hyrwyddo byw yn annibynnol na dweud wrthyhch am **Ms C** a sut gwnaethom ei chefnogi i fod yn fwy annibynnol unwaith eto:

Dewis darparwyr byw gyda chymorth ar y cyd â rhanddeiliaid

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ail-gomisiynu 4 o'n tai byw gyda chymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; nid yw'r eiddo hyn bellach yn defnyddio'n tîm cefnogi mewnol. Cynhaliwyd proses gaffael i gomisiynu darparwr sector annibynnol newydd. Roedd y broses dendro mewn cydweithrediad ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y teuluoedd a'r ffrindiau ynghyd â chefnogaeth Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru. Am y tro cyntaf, roedd teuluoedd Sir y Fflint yn gallu cael pwysau cyfartal o ran dewis darparwr newydd. Bu ymwneud y rhanddeiliaid yn hanfodol i werthuso a dewis darparwr, gan roi hyder i bob un ohonom y bydd y darparwr newydd yn cefnogi'r unigolion i gyflawni eu canlyniadau lles.

Trwy hyrwyddo **Taliadau Uniongyrchol**, rydym hefyd wedi cefnogi unigolion a'u teuluoedd i ddewis eu darparwr cymorth eu hunain mewn 3 thŷ byw gyda chymorth arall, gan ddangos dull cyd-gynhyrchu llwyr. Cefnogodd y Gwasanaethau Cymdeithasol y broses ond cymerodd eu hunigolion a'u teuluoedd reolaeth ar ddewis darparwyr,

Adran 4: Hyrwyddo a Gwella Lles y Sawl a Helpwn

cynnal cyfweiliadau ac yn y pen draw dewis y darparwr dethol. Bu'r adborth yn hynod gadarnhaol gyda phobl yn dweud wrthym pa mor dda oedd hi i gael y rôl hon a dylanwadu ar ddewis darparwr sy'n bodloni eu canlyniadau personol orau. Ni ddewiswyd un o'r darparwyr oherwydd ni allent ymroi i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd gan un ddynes. Mae hyn yn dangos eu hymrwymiad a'u hangerdd i gymryd rhan ac achub y blaen ar y penderfyniadau sy'n bwysig iddynt. Cymerwch olwg ar y ffotograffau o'r broses gyfweild.



Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 wrth symud ymlaen:

- Datblygu'n hasedau adeiladu, defnyddio buddsoddiad cyfalaf, sicrhau bod gan bobl leoedd da i gymdeithasu a byw ynddynt, er enghraifft Gofal Ychwanegol y Fflint, gwaith cyfalaf Arosfa a'r ganolfan gwasanaethau dydd newydd yng Nglannau Dyfrdwy.
- Adeiladu sector gofal cryf, trwy ddatblygu'n darpariaeth fewnol, cefnogi'r sector annibynnol a gweithio gydag ieuchyd i sicrhau gofal di-dor a chydlynol.

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

Mae Cyngor Sir y Fflint yn Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn un uchel ei berfformiad. Cydnabuwyd ein perfformiad cyson dda ar lefel leol a chenedlaethol. Mae gennym Hunaniaeth Gorfforaethol gref gyda Phrif Dîm Gweithredu sy'n darparu arweinyddiaeth gydlynol a phroffesiynol. Mae gennym fframwaith llywodraethu grymus sy'n cynnwys set glir o flaenoriaethau sefydliadol, dull cydlynol o droi at gynllunio/rheolaeth ariannol a model gweithredu effeithiol ar gyfer rheoli risgiau.

Esbonia'r adran ganlynol y ffordd rydym yn gweithredu, yn gweithio gyda'n partneriaid, yn buddsoddi yn ein gweithlu a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol:

(a) Ein Gweithlu a'r Ffordd y Cefnogwn eu Rolau Proffesiynol

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ganolbwyntio ar y ffordd rydym yn cynllunio i ddatblygu a chefnogi'n gweithlu yn ystod yr adeg hon o newid a sicrhau ein bod yn bodloni gofynion Deddf y



Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Byddwn ond yn cyflawni'n huchelgeisiau a bod yn llwyddiannus wrth fodloni canlyniadau lles pobl trwy'n gweithlu trwy ddatblygu'r sgiliau, yr agweddau a'r ymddygiadau iawn. Bu hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae wedi gweld ein Strategaeth Pobl 2016-19 yn cael ei chyflwyno, a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni dyheadau ac uchelgeisiau'r Cyngor. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl staff yn ymroddedig, yn fedrus ac yn wybodus o ran cyflawni arfer o ansawdd yn ôl diffiniad y Ddeddf.

Sicrhau bod ein holl staff yn fedrus ac yn llawn gwybodaeth wrth gyflawni arfer sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddiwygiadau gyda goblygiadau mawr i anghenion dysgu a datblygu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol cyfan. Yn dilyn lansiad y Ddeddf, datblygwyd cyfres o gyrsiau undydd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes yn dilyn rhaglen hyfforddi a gomisiynwyd gan Ofal Cyngor Cymru, ac fe'i cyflwynwyd ledled Cymru. Edrychwch ar bresenoldeb staff Sir y Fflint ar y cyrsiau hyn, **fan hyn**.

Er mwyn sicrhau bod ein staff i gyd yn hyfedr ac yn llawn gwybodaeth wrth gyflawni arfer sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, cydgomisiynodd y 6 Gwasanaeth Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru Rhoda Emlyn-Jones i gyflwyno cyfres o gyrsiau Hyfforddiant sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Yn Sir y Fflint, roedd hyn yn cynnwys cwrs undydd i reolwyr y Gwasanaethau Oedolion a chwrs deuddydd i'r staff; ac i ddilyn, hyfforddiant i grŵp bach o reolwyr er mwyn hwyluso Grŵp Ymarfer Myfyriol ar gyfer staff. Datblygodd hyn i hyfforddiant rheoli parhaus a grwpiau ffocws staff ar gyfer timau amrywiol.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cynnal 2 ddigwyddiad gwasanaeth i'r staff i gyd ar y Ddeddf. I ddechrau, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gyflwyno deuddydd o hyfforddiant, ar y sgwrs "Yr Hyn sy'n Bwysig" i blant, ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen i ymgysylltu ac asesu anghenion pobl ifanc dan y Ddeddf, gyda'r bwriad o gyflwyno rhaglen rheoli a datblygu staff sy'n debyg i'r hyn sy'n digwydd yn y Gwasanaethau Oedolion.

Yn rhaglen hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol, diweddarwyd yr holl ddeunyddiau cwrs presennol yn unol â'r Ddeddf ac mae bellach

yn adlewyrchu ei ethos, ei egwyddorion a'r dull newydd. Cyfeirir staff a fethodd fynychu modiwlau hyfforddiant penodol neu y mae arnynt angen gwybodaeth arbenigol at wefan yr **Hwb Dysgu** a sefydlwyd gan Gyngor Gofal Cymru. Mae **Aseswyr QCF** yn cyfeirio dysgwyr at yr Hwb Dysgu ac yn gofyn iddynt gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ôl cwblhau eu gweithdy cynefino diploma.

Yn olaf, mae cyfres o weithdai'n dwyn y teitl "Gwneud y Mwyaf o'r Trydydd Sector" wedi annog rheolwyr a staff i ymgysylltu â'r trydydd sector, darparwyr annibynnol ac asiantaethau partner dan y Ddeddf. Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu wedi cynnal gweithdai rhanbarthol yn Greenfield ar y Ddeddf ar gyfer rheolwyr trydydd sector ac annibynnol er mwyn meithrin gweithio mewn partneriaeth.

Yn dilyn sawl gweithdy Datblygu Sefydliad rhanbarthol a fynychwyd gan fwyafrif uwch reolwyr Sir y Fflint ym mis Rhagfyr 2016 a mis Ionawr 2017, mae rhaglen strategol yn cael ei datblygu i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf i strwythurau ac arferion y gwasanaeth.

Credwn ein bod ni'n gwneud cynnydd da wrth sicrhau bod ein holl staff yn fedrus ac yn llawn gwybodaeth wrth gyflwyno arfer sy'n ofynnol gan y Ddeddf; bydd y ffocws wrth symud ymlaen ar gymorth i gymheiriaid, rhannu arfer da, goruchwyliaeth ac arfarniadau i sicrhau bod arfer o safon yn cael ei ymgorffori'n llwyr.

Ymgorffori'n strwythur rheoli newydd mewn Gwasanaethau Plant

Mae cyfaint a chymhlethdod y gwaith wedi ac yn parhau i fod yn her i'r Gwasanaethau Plant ac rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwaith cyflawni wrth ddatblygu dulliau newydd o sicrhau y gallwn gynnal darpariaeth cefnogaeth ansawdd uchel ac effeithiol i blant a

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

theuluoedd. Mae'r ymrwymiad, yr angerdd ac ymroddiad parhaus y staff i ddarparu gwasanaeth o amgylch y plentyn, sy'n canolbwyntio ar y teulu, proffesiynol yn parhau i fod wrth wraidd ein llwyddiant.

Yn 2016, rhoesom strwythur newydd ar waith ar gyfer timau gweithredol y plant yn swyddfeydd Cyngor y Fflint. Cymerwyd dull graddol yn groes i weithrediad 'clec fawr' i sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Mae'r strwythur tîm newydd bellach yn gwbl weithredol.


Yn unol ag ethos y Ddeddf, byddwn yn parhau i ddatblygu'n dull o sicrhau gwybodaeth, cyngor a chymorth effeithiol ac amserol. Mae cydleoiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn Fflint, ac integreiddio'r Tîm o Amgylch y Teulu yn y Gwasanaethau Plant, ill dau wedi chwarae rôl arwyddocaol wrth wella'n gwasanaethau a'r gefnogaeth a gynigiwn. Yn 2017, bydd gwaith pellach i gryfhau'n dull o dargedu ymyrraeth gynnar i deuluoedd a chanddynt anghenion cymhleth trwy'n Hwb Help Cynnar.

Datblygu ffocws grymus ar ansawdd ac arfer

Mae mesur effaith cyflwyno gwasanaethau'n hollbwysig i gyflawni gwell canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi rhoi Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar waith i fonitro a gwerthuso cyflawniad effeithiol gwasanaethau yn erbyn y safonau sy'n galluogi ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc, oedolion a gofalwyr, a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni. Mae'r fframwaith yn ein helpu ni i lunio barn ar ansawdd ein gwasanaethau, yn seiliedig ar a ydym yn gweithio'n effeithiol gyda defnyddwyr

gwasanaeth i gyflawni'r canlyniadau a ddymunant, ac a ydy'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bodloni'r safonau a ddynodwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r farn yn deillio o amryw ffynonellau, gan gynnwys y profiadau a chynnydd canfyddedig y dinasyddion sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

The improvement cycle:



Mae archwilio ffeiliau'n gyson yn darparu archwiliadau a sicrwydd fod ymarfer a pherfformiad yn bodloni safonau cytûn, bod yr holl waith papur sy'n ofynnol yn sgil rheoleiddio a deddfwriaeth yn cael ei gwblhau o fewn graddfeydd amser penodedig a bod yna

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

gydymffurfiaeth â gweithdrefnau. Mewn Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi rhoi dull cymryd risg cadarnhaol a phanel ansawdd ar waith i gadarnhau bod hawl yr unigolyn i gael sgysiau am eu lles, ac i ymarfer llais a rheolaeth gref dros eu penderfyniadau'n cael ei pharchu; ein bod ni'n cymryd dull "seiliedig ar hawliau" a bod yr unigolyn wedi cael gwybodaeth, cyngor ac, os oes angen, cymorth i'w cefnogi i nodi'r canlyniadau y dymunant eu cyflawni i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a'u lles. Bwriadwn gyflwyno'r dull panel ansawdd o droi at feysydd gwasanaeth eraill gan gynnwys y Gwasanaethau Anabledd a Phlant.

Caiff ein rhaglen i archwiliadau ffeiliau mewn Gwasanaethau Plant ei goruchwyllo gan banel o reolwyr ymarfer ac mae'n seiliedig ar dri chwestiwn ansawdd: ymwneud y plant yn y broses asesu, cynllunio ac adolygu, dynodi a chyflawni canlyniadau ar gyfer y plentyn a'r teulu, ac ansawdd gwneud penderfyniadau'r rheolwyr. Dynodir y themâu gwella ym mhob rownd archwilio ac fe'u symudir ymlaen gan banel y rheolwyr fel dysgu i'r dyfodol, neu fel pwnc archwiliadau ffeiliau manylach pellach.

Dadansoddir y gwersi a ddysgwyd yn sgil y canmoliaethau a'r cwynion a gafwyd trwy broses Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol bob chwarter gan y Swyddog Cwynion ac adroddir yn fanwl arnynt i Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Caiff y canfyddiadau eu craffu gyda'r bwriad o nodi tueddiadau a meysydd ar gyfer gwella gwasanaethau, a themâu posibl ar gyfer gweithgarwch datblygu gweithlu'r dyfodol neu archwiliadau ffeiliau o ansawdd. Cymerwch olwg ar rai enghreifftiau o ble gwnaethom wrando ar eich adborth a lle gwnaethom welliannau gwasanaeth priodol o ganlyniad - **'dywedoch chi, gwnaethom ni'**.



Darparu Hyfforddeiaethau i Weithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant

Ar hyn o bryd, mae gennym nifer o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n ymgymryd â gradd y Brifysgol Agored mewn gwaith cymdeithasol dan y cynllun hyfforddeiaeth. Cwblhaodd 3 hyfforddai eu hyfforddiant ac maen nhw wedi ymuno â'n timau gwaith cymdeithasol, un mewn gwasanaethau plant a dau mewn gwasanaethau oedolion. Mae 3 yn eu 3edd blwyddyn a'u blwyddyn olaf, a 2 yn eu 2il flwyddyn. Rydym yn gwahodd ceisiadau ar gyfer hyfforddeiaethau nawdd eleni ar gyfer Gweithiwr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Yn ogystal, rydym yn noddi 2 aelod o staff i hyfforddi fel Uwch Ymarferwyr Iechyd Meddwl.

Bydd yr hyfforddeiaethau hyn yn parhau i roi cyfleoedd i staff ddatblygu yn eu gyrfa ddethol wrth barhau i weithio i Sir y Fflint ac rydym yn falch o allu datblygu'r staff presennol i gyrraedd eu llawn botensial.

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

Gwaith tuag at sicrhau bod gan yr holl staff sy'n ymgymryd ag asesiadau gymwysterau addas, fel y gosodwyd yn Neddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r canllawiau yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn penodi categorïau staff, a ddylai feddu ar gymwysterau addas, i ymgymryd ag asesiad o anghenion lles, gofal a chefnogaeth unigolyn. Er mwyn bod yn glir o ran beth mae 'meddu ar gymwysterau addas' yn ei olygu, mae Cyngor Gofal Cymru wedi cymeradwyo cymhwyster a ddatblygwyd gan y Brifysgol Agored, ac sydd wrthi'n cael ei dreialu ar draws Gogledd Cymru. Y cymhwyster newydd yw'r Dystysgrif Addysg Uwch (Cymru), y gellir ei gymryd fel lefel ragarweiniol generig i'r Radd BA (Anrhydedd) Gwaith Cymdeithasol (Cymru) neu fel dystysgrif ar ei phen ei hun, neu ragflaenydd i sawl cymhwyster uwch arall.

Mae'r dystysgrif newydd yn cynnwys dau gwrs presennol a gellir ardystio unrhyw aelod o staff sydd eisoes wedi'u cwblhau o fewn y 5 mlynedd diwethaf. Rydym wrthi'n ymgymryd ag archwiliad i nodi staff sy'n cynnal asesiadau o fewn cwmpas y Ddeddf; y rhai a gafodd y ddwy dystysgrif o fewn y 5 mlynedd diwethaf; a'r rhai sydd angen cymryd un neu'n fwy o'r cyrsiau cydrannol. Fel y mae'r staff wedi nodi, maen nhw'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer ymrestrriad gyda'r Brifysgol Agored. Yn anffodus, bydd gan y costau a wariwyd i gydymffurfio â gofyniad y Ddeddf hon yn cael effaith sylweddol ar gyllideb hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cefnogi cyfraddau cadw gweithwyr y sector gofal a gweithio'n rhagweithiol i recriwtio gweithwyr gofal newydd

Rydym wrthi'n nodi'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar freuder y **sector gofal** yn Sir y Fflint (mewn gofal preswyl a gofal cartref) a'u harchwilio'n fanylach. Rydym yn archwilio ffyrdd arloesol o fagu diddordeb yn y sector gofal fel cyflogwr o ddewis. Bydd cynllun rhaglen yn cael ei lunio yn unol â meysydd blaenoriaeth a bydd llifoedd gwaith yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r ffactorau hyn. Y brif her i bawb sydd ynghlwm â'r sector hwn yw datblygu strategaethau newydd i gefnogi darparwyr wrth sefydlogi'r gweithlu. Rydym yn gysylltiedig hefyd â'r arweinwyr rhanbarthol sy'n gweithio ar y cyd â darparwyr, asiantaethau partner a chyda Thîm Datblygu Economaidd yr Awdurdod Lleol i ddatblygu Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â hyn a materion gweithlu eraill ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal, eleni oedd y flwyddyn gyntaf y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi recriwtio prentis gweithiwr gofal uniongyrchol ar gyfer ein Cartref Gofal Preswyl, Marleyfield House. Mae hyn yn llwyddiannus iawn gyda'r prentis yn gweithio'n galed i fodloni gofynion y swydd a'r hyfforddiant; byddant yn ymgymryd â QCF Lefel 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod eu hamser gyda ni ac rydym yn gobeithio y



Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

bydd cyfle i ymuno â'n tîm yn barhaol ar ôl i'r brentisiaeth gael ei chwblhau.

Cefnogi rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth i reolwyr yn y sector annibynnol

Ar ddechrau 2017, byddwn yn cynnig adolygiad busnes un-i-un neu 'archwiliad iechyd' gydag Ymgynghorydd Busnes i bob darparwr yn Sir y Fflint. Bydd y broses hon yn datblygu dealltwriaeth glir o faterion gweithredol busnes sy'n effeithio ar bob darparwr yn lleol. Bydd y wybodaeth hon o gymorth i ni nodi hyfforddiant ac adnoddau a allai fod ar gael trwy'n partneriaid neu'n breifat er mwyn bodloni anghenion y darparwr unigol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i gydweithredu a ffurfio partneriaethau yn y sector gofal.

Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 wrth symud ymlaen:

- Cynllunio dilyniant a datblygu strategaethau effeithiol ar gyfer prinderau'r gweithlu, gwasanaethau darparwyr, gwasanaethau plant a chomisiynu.

(b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae Sir y Fflint wedi addasu, moderneiddio a newid i ymdopi â blynyddoedd olynol o ostyngiadau mawr yn ei chyllidebau. Er gwaetha'r heriau o orfod gwneud mwy gyda llai, mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cadw eu huchelgeisiau am sir flaengar a ffyniannus a gefnogir gan wasanaethau cyhoeddus ansawdd uchel.

- Dengys yr Arolwg Cyhoeddus Cenedlaethol fod y Cyngor yn yr 2il safle yng Nghymru am ddarparu gwasanaethau ansawdd da yn unol â safbwyntiau'r trigolion.



Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys: gosod cyllidebau cytbwys wrth fuddsoddi mewn blaenoriaethau allweddol, bodloni twf yng ngofynion y gwasanaeth ac amsugno effeithiau cost chwyddiant. Mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn trwy ddatblygu rhaglenni newid mewnol a diwygio i wneud arbedion effeithlonrwydd, gan gydnabod bod dal angen iddo gryfhau agweddau ar ei weithrediadau.

Bu graddfa a chyflymder yr arbedion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd diwethaf yn ddigynsail: ac nid oedd 2016/17 yn wahanol. Yn 2016, rhannom ein strategaeth cyllid y Cyngor, sef **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** 2016 – 2019, sy'n gosod ein cynllun i fodloni'r bwch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 sy'n cynnwys tair rhan:

Rhan 1 Diwygio a moderneiddio gwasanaethau

- **Ac eithrio Addysg a Gofal Cymdeithasol, gosodwyd targedau gostwng costau o 30% ar gyfer pob gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau corfforaethol, ar eu cynlluniau busnes tair blynedd.**

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn



Rhan 2 Stiwardiaeth ariannol gorfforaethol

- **Defnydd darbodus o faterion ariannol corfforaethol e.e. amsugno costau chwyddiant, codi incwm a rheoli costau'r gweithlu.**

Rhan 3 Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Gosod disgwyliadau realistig o Lywodraeth Cymru fel ein prif gyllidwr

- **cyfyngu ar y gostyngiad blynyddol mewn Grant Cynnal Refeniw i 2.5% ar gyfer 2016/17 a 2017/18**
- **codi capiau codi ffioedd a rhoi'r rhyddid i'r Cyngor adennill costau rhai gwasanaethau**
- **buddsoddi 25% neu'n fwy o gyllid newydd GIG a drosglwyddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU mewn gofal cymdeithasol**

Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu diwygio gwasanaethau yn 2017/2018 ond nid yw'n bwriadu lleihau'r lefelau gwasanaeth y tu hwnt i'r lefelau sydd eisoes wedi'u hamlinellu'n gyhoeddus. Mae'r Cyngor eisiau parhau i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol a gwerthfawr yn parhau i fod ar gael. Golyga hyn er mwyn cydbwysu'r llyfrau yn y dyfodol, mae angen i ni roi mwy o bwyslais ar ein stiwardiaeth ariannol gorfforaethol a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni setliad cyllid tecach i Sir y Fflint.

Er mwyn ein helpu ni i gryfhau'n sefyllfa ar lefel genedlaethol mewn dadleuon am newidiadau i gyllid, mae angen i ni gael gweledigaeth glir am sut rydym eisiau i 'Ein Sir y Fflint' fod yn y dyfodol. Bydd y farn ar y cyd hon gan unigolion, cymunedau a chyrff cyhoeddus yn dangos bod gennym ddull cadarnhaol a'n bod ni'n gwybod beth rydym eisiau ei gyflawni. Bydd hyn yn ei hun yn rhoi hyder i bobl fuddsoddi a bod yn rhan o daith Sir y Fflint; rydym wedi bod yn gwahodd ein dinasyddion, a'n partneriaid i gymryd rhan yn 'Dyma ein Cyfle Ni' – sef cyfle i ni gydweithio i fynd i'r afael â'r heriau a'r penderfyniadau anodd hyn. Rydym eisoes yn gweithio gyda phobl i ganfod atebion lleol i ddarparu gwasanaethau – mae gan gymunedau lleol gyfle mawr i chwarae eu rhan a chymryd cyfrifoldeb am gyfleusterau a gwasanaethau lleol nad yw'r Cyngor Sir o bosibl yn gallu eu darparu bellach.

- Cydnabyddir Sir y Fflint yn genedlaethol fel Cyngor arloesol wrth ddod o hyd i atebion newydd sy'n gost effeithlon, yn wydn ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

O fewn y cyd-destun hwn, roedd hi'n bleser gennym gael ein hadroddiad gwella blynyddol gorau erioed yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n adlewyrchu'n hymrwymiad i barhau'n sefydliad uchel ei berfformiad sy'n rhoi i ni sylfeini da i barhau i gyflawni'n blaenoriaethau yn wyneb heriau ariannol pellach.

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

Dyma'n blaenoriaethau ar gyfer 2017/18 wrth symud ymlaen:

- Mae cyllidebau refeniw wedi'u hunioni a'u cydbwysu, caiff ein hincwm ei uchafu ac ystyrir cronfeydd cyfun.

(c) Ein Gwaith mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae blaenoriaethau'r Cyngor yn y Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17 yn parhau i fod yn seiliedig ar uwch strwythur wedi'i fireinio o wyth blaenoriaeth, y mae blaenoriaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn seiliedig o fewn y flaenoriaeth o "Fyw'n Dda".

Blaenoriaeth	Is-flaenoriaeth	Effaith
Byw yn Dda	Byw yn Annibynnol	Galluogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol ac yn dda adref
	Gwasanaethau cymunedol, cymdeithasol ac iechyd integredig	
	Diogelu	Sicrhau bod oedolion, pobl ifanc a phlant yn cael eu diogelu
Tai	Cartrefi priodol a fforddiadwy	Gwella dewis ac ansawdd tai lleol
	Cartrefi modern, effeithlon ac wedi'u haddasu	
Amgylchedd	Isadeiledd a gwasanaethau cludiant	Mynd at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ddiogel
	Datblygu cynaliadwy a rheolaeth amgylcheddol	Datblygiad amgylcheddol sy'n gwneud y mwyaf o fanteision cymdeithasol ac economaidd
Tlodi	Mwyhau incwm	Diogelu pobl rhag tlodi
	Tlodi tanwydd	
Cymunedau Diogel	Diogelwch cymunedol	Cadw pobl a chymunedau'n ddiogel
Sgiliau a Dysgu	Prentisiaethau a hyfforddiant	Gwella darpariaeth ddysgu a chyfleoedd i gyflawni gwell canlyniadau i ddysgwyr
	Addysg wedi'i moderneiddio a pherfformiad uchel	
Economi a Menter	Twf y sector busnes	Creu swyddi a thyfu'r economi leol
	Adfywio trefi ac adfywio gwledig	
Cyngor Modern ac Effeithlon	Datblygu cymunedau	Cefnogi Cymunedau i fod yn fwy gwydn
	Gwella rheoli adnoddau	Cefnogir gwasanaethau'r rheng flaen yn effeithlon ac yn effeithiol

Adran 5: Sut Mae Gwneud yr Hyn a Wnawn

Mae'r flaenoriaeth Cyngor Modern ac Effeithlon yn gosod sut mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd i gefnogi gwasanaethau'r rheng flaen i fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Caiff pob blaenoriaeth eu gosod yn dilyn adolygiad o flaenoriaethau'r llynedd ac mae'n ystyried materion newydd, sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael â nhw, naill ai o lefelau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Mae Cynllun Gwella'r Cyngor yn gosod yn glir pam dewiswyd y blaenoriaethau ac mae trefniadau arweinyddiaeth a chraffu'r Cyngor yn helpu ystyried a gosod y blaenoriaethau ar ddechrau pob blwyddyn newydd y cyngor.

Caiff y blaenoriaethau hyn eu monitro a'u herio bob chwarter gan Gabinet a phwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cabinet i sicrhau bod y gweithgareddau, y cerrig milltir a'r mesurau'n parhau i gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n cyfrannu tuag at yr effaith a ddymunir. Caiff risgiau hefyd eu monitro a sicrwydd ei roi gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

Cafodd cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli'r prosesau diogelu ei ehangu'n sylweddol fel blaenoriaeth gorfforaethol eleni; gan weithio gydag ac ar draws pob portffolio i asesu anghenion hyfforddiant grwpiau'r gweithlu a all chwarae eu rhan fwyaf wrth godi ymwybyddiaeth a gwybod beth i wneud a sut i gyfeirio. Yn ogystal, hyrwyddwyd lles unigolion ar draws Tîm y Prif Swyddog gyda hyfforddiant cyfeillgar i ddementia i godi ymwybyddiaeth mewn gwasanaethau eraill.

Yn dilyn gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sefydlodd awdurdodau lleol Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol,

ynghyd â chynrychiolwyr darparwyr ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau'n strategol fod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i wella'r canlyniadau i bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol, yn meddu ar weledigaeth ar y cyd a chynlluniau strategol ac yn hyrwyddo integreiddio a chyllidebau cyfun. Gan fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol megis dechrau, mae ei gynllun gwaith a'i flaenoriaethau'n cael eu cwblhau a bydd yr adroddiad blynyddol statudol ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gael erbyn diwedd mis Mawrth 2017.

Ar lefel Sirol, rydym yn parhau gydag enw da hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016, yn parhau gyda'r sylfaen dda a osodwyd gan yr hen Fwrdd Gwasanaeth Lleol. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu a chael ei gyflawni o dan flaenoriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ac iechyd "Mae pobl yn mwynhau iechyd da, lles ac annibyniaeth".

Rydym yn parhau i gryfhau'n partneriaethau strategol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a'r berthynas weithio agos gydag asiantaethau partner allweddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi ein gweld ni'n cydweithio i leihau trosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio, gwella gweithio amlasiantaeth ac aml-ddisgyblaethol a gwella gwasanaethau ataliol ar draws pob maes gwasanaeth, ymhlith ystod o ddatblygiadau eraill. Ein gobaith yw y bydd y flwyddyn ganlynol yn ein gweld ni'n sicrhau adnodd iechyd yn ein Pwynt Mynediad Sengl, ac yn parhau â'r berthynas gref hon.

Adran 6: Troi at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Deddfwriaeth a Gwybodaeth Gwaith Cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni, hefyd

Deddf Rheoliadau ac Arolygiadau (Cymru) 2015

DEWIS Cymru

Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol

Cyngor Gofal Cymru – Hyb Dysgu

Cyngor Sir y Fflint – Dogfennau Strategol Allweddol:

Cynllun Gwella

Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol 2015/16

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Bodloni'r Her Ariannol yn Sir y Fflint – **Dyma Ein Cyfle Ni**

Y Gwasanaethau Cymdeithasol – Dogfennau
Allweddol:

Fframwaith i Gyflwyno Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl
Hŷn gydag Anghenion Cymhleth - **Datganiad o Fwriad Gogledd
Cymru**